



Image courtesy of Heidelberg Materials UK.

Argraffiad 2026

Blaenoriaethau i Gymru



TROSOLWG

1. Y diwydiant sy'n sail i bob diwydiant

Mae mwynau yn cyffwrdd â bywydau pawb yng Nghymru, ac mae gan y diwydiant hanes balch o gefnogi twf economaidd ar draws y genedl a thu hwnt.

Mae adnoddau mwynol megis creigiau mân, tywod a graean, llechi a cherrig pensaernïol, ynghyd â chynhyrchion fel asffalt, sment, concrit, calch, morter a mwynau diwydiannol, wedi siapia ein bywydau a'n tirweddau am genedlaethau.

Ochr yn ochr â'r cartrefi, yr ysgolion a'r ysbytai sy'n hanfodol i fywyd modern, mae cynhyrchion mwynol yn darparu'r sylfaen i'r diwydiannau a'r prosiectau adeiladu sy'n pwero economi Cymru, o seilwaith trafniadaeth, seilwaith ynni a dur, i weithgynhyrchu ac amaethyddiaeth.

Mae Cymru wedi ei bendithio'n ddaearogol i feddu ar ddigonedd o adnoddau mwynol hanfodol. Fodd bynnag, mae'r sector cynhyrchion mwynol yn wynebu nifer o heriau polisi y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy er mwyn iddo allu parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei huchelgeisiau a'i dyheadau ar gyfer cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd.

Mae'r heriau hyn yn cynnwys system gynllunio a thrwyddedu Cymru, costau ynni uchel, baich trethi cynyddol, a materion yn ymwneud â natur, defnydd tir ac adnoddau.



2. Cyfraniad tuag at economi Cymru

- Mae sector cynhyrchion mwynol Cymru yn cynhyrchu 22 miliwn tonnall o gynhyrchion mwynol hanfodol y flwyddyn, gan weithredu o tua 200 o safleoedd.
- Mae'r sector yn cyflogi mwy na 3,800 o bobl yn uniongyrchol yng Nghymru, yn aml mewn lleoliadau gwledig lle gall cyfleoedd eraill am gyflogaeth fod yn gyfyngedig, ac fel y cyflenwr mwyaf i'r sector adeiladu mae'n cefnogi mwy na 100,000 o swyddi drwy ei gadwyn gyflenwi yng Nghymru.
- Cynhyrchiant llafur cyfartalog y sector led led y DU yw £99,000 y gweithiwr, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd y DU.
- Mae'r sector yn cyfrannu tua £700 miliwn y flwyddyn tuag at economi Cymru.

Ym mhob ystyr, dylid ystyried sector cynhyrchion mwynol Cymru yn ddiwydiant sylfaenol ac yn un o'r ychydig ddiwydiannau trwm sy'n parhau yn y Dywysogaeth.

MATERION ALLWEDDOL

1. Cynllunio a thrwyddedu

Mae cynhyrchion mwynol fel agregau a mwynau diwydiannol yn hanfodol i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu tai, seilwaith trafniadaeth ac ynni, a'r economi a'r amgylchedd yn ehangach.

Ni ddylid cymryd argaeledd a chyflenwad mwynau yn ganiataol. Er bod adnoddau helaeth ar gael, rhaid cynllunio, rheoli a monitro cronfeydd wrth gefn er mwyn sicrhau y gellir diwallu'r galw ar sail ddiogel a chynaliadwy. Mae'n hanfodol felly bod cronfeydd wrth gefn priodol o agregau a mwynau eraill, sydd wedi cael caniatâd, yn cael eu cynnal, o ran maint ac ansawdd, fel y gall y sector barhau i weithredu a buddsoddi'n hyderus.





Fodd bynnag, mae cyfraddau ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn ar gyfer agregau a ganiateir yng Nghymru ers blyneddau lawer wedi bod yn is na'r cyfraddau echdynnu, gan arwain at ostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn.

Yn y deng mlynedd hyd at 2023, dim ond 8% o'r 11 miliwn tonnall o dywod a graean a werthwyd a gafodd eu disodli gan gronfeydd wrth gefn newydd, tra mai 63% o'r 101 miliwn tonnall o werthiannau cerrig mâl a gafodd eu disodli dros yr un cyfnod.

Nid yw hyn yn gynaliadwy, ac mae angen diwygio cynllunio a thrwyddedu mwynau yng Nghymru ar frys er mwyn sicrhau y gall y sector barhau i gyflenwi deunyddiau hanfodol ar gyfer tai a seilwaith heb orfod dibynnu ar fewnforion o Loegr neu o bellach i ffwrdd.



Argymhellion:

- Sicrhau bod gweithrediadau ac adnoddau mwynau hanfodol yn cael eu diogelu'n briodol ac nad yw cyfyngiadau rhy llym a gyflwynir yn cael effaith andwyol ddiangen arnynt. Dylai polisi a rheoleiddio da, gan gynnwys MTAN1, fod yn seiliedig ar ganllawiau technegol ac egwyddorion sefydledig sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth gadarn. Gallai gweithredu cyfyngiadau adweithiol sy'n gosod pellteroedd gwahanu a pharthau clustogi mympwyol beryglu hyfywedd rhan helaeth o ddiwydiant echdynnu Cymru, ynghyd â'r gyflogaeth hanfodol a'r gweithgarwch economaidd cysylltiedig y mae'r diwydiant hwnnw'n eu cynnal.
- Gweithredu argymhellion Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) Cymru ar gyfer recriwtio a buddsoddi o fewn system gynllunio Cymru er mwyn adfer capasiti.
- Symleiddio cynllunio a thrwyddedu mwynau i leihau costau, oedi, ansicrwydd a biwrocratiaeth, er mwyn mynd i'r afael â'r dirywiad mewn cronfeydd agregau wrth gefn sydd wedi'u caniatáu.
- Sicrhau fod gan bob awdurdod cynllunio yng Nghymru fynediad at arbenigedd cynllunio mwynau arbenigol, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud drwy broses strategol ehangach.
- Cyflwyno atebolrwydd mewn cynllunio mwynau, drwy sicrhau bod prosiectau seilwaith a chynlluniau datblygu o bwys yn cynnwys asesiadau adnoddau ac ystyriaethau o ran y gadwyn gyflenwi fel rhan o'r broses archwilio.
- Cynyddu adeiladu tai pob deiliadaeth yng Nghymru, wedi'i ategu gan darged cenedlaethol, a lleihau'r rhwystrau tuag at gymeradwyo prosiectau seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd newydd.

2. Ynni a datgarboneiddio

Mae'r sector cynhyrchion mwynol wedi ymrwmo i ddatgarboneiddio ac mae hefyd yn hanfodol ar gyfer cyflenwi'r prosiectau a fydd yn sicrhau trawsnewidiad ynni Cymru.

Mae sment yn ddiwydiant ynni-ddwys, gyda dau o weithfeydd yng Nghymru, yn Padeswood ac Aberddawan. Mae cynllun ffordd tuag at sero net gan ddiwydiant sment a concrit y DU erbyn 2050, ac mae Padeswood ar y trywydd iawn i gymryd cam mawr tuag at hynny drwy ddod yn waith sment sero net cyntaf y DU erbyn 2029.

Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r cynllun ffordd yn llawn, bydd angen cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a San Steffan i barhau â chyflwyno Dal, Defnyddio a Storio Carbon (CCUS), darparu seilwaith hanfodol fel cysylltiadau newydd neu uwchraddedig â'r grid, a sefydlu cyflenwad dibynadwy a fforddiadwy o drydan sero carbon a thanwydd cynaliadwy.

Bydd y sector hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu'r seilwaith ynni sydd ei angen ar gyfer trawsnewidiad gwyrdd Cymru. Er enghraifft, cydnabu grŵp gorchwyl a gorffen ynni gwynt alltraeth Llywodraeth Cymru fod "y sector concrit ac agregau mewn sefyllfa dda i gefnogi datblygiad sylfeini concrit, gyda chapasiti yng ngogledd a de Cymru sy'n ddigon agos at borthladdoedd i gefnogi'r sector ffermydd gwynt arnofiol ar y môr (FLOW)". Fodd bynnag, bydd hyn yn gofyn am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i annog prosiectau i ddefnyddio cadwyni cyflenwi domestig, ac felly sicrhau bod y trawsnewidiad yn sicrhau'r budd economaidd mwyaf i gymunedau Cymru.

Yn yr un modd, bydd cynhyrchion mwynol yn hanfodol ar gyfer y porthladdoedd a'r seilwaith trafniadaeth sydd eu hangen i sicrhau'r trawsnewidiad ynni, gyda chyhoeddiadau diweddar o gefnogaeth y

Argymhellion:

- Cyflwyno ynni gwynt alltraeth, a chymell prosiectau i ddefnyddio cadwyni cyflenwi domestig, gan gynnwys ar gyfer concrit.
- Eirioli dros Strategaeth Goncrit i'r DU gyfan i wneud y mwyaf o gyfraniad posibl y diwydiant concrit tuag at y trawsnewidiad ynni, yn unol â chynllun gweithredu grŵp gorchwyl a gorffen ynni gwynt alltraeth Llywodraeth Cymru.
- Buddsoddi mewn seilwaith porthladdoedd i alluogi defnyddio cadwyni cyflenwi domestig ar gyfer gosodiadau ynni gwynt alltraeth.
- Gweithio gyda'r Llywodraeth i ddarparu ynni niwclear newydd yn yr Wylfa.
- Gweithio gyda'r Llywodraeth i gyflwyno Dal, Defnyddio a Storio Carbon (CCUS) ym mhob rhan o Gymru, a sicrhau bod gan Gymru'r gweithlu medrus angenrheidiol i ddiwallu anghenion y diwydiant CCUS yn y dyfodol.
- Aseu allyriadau adeiladau dros eu hoes gyfan, yn hytrach na chanolbwyntio cul ar garbon corfforedig 'cychwynnol' cyn defnyddio adeilad.



llywodraeth i ddatblygu Port Talbot fel canolfan weithgynhyrchu ar gyfer datblygu ynni gwynt alltraeth arnofiol yn y Môr Celtaidd.

Yn olaf, disgwylir i'r Wylfa ar Ynys Môn fod ar flaen y gad o ran datblygu'r defnydd o adweithyddion niwclear modiwlaid bach ar gyfer cynhyrchu trydan.

3. Trethiant

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyfuniad o bolisiau Llywodraeth y DU yn bennaf wedi cynyddu'r baich treth cronol ar fusnesau yn arwyddocaol o fewn y sector cynhyrchion mwynol.

Mae hyn, ynghyd â ffactorau eraill, wedi atal buddsoddi yn y sector, ac mewn rhai achosion wedi arwain at ddiswyddiadau a rhoi safleoedd allan o weithred ac i'r neilltu.

Roedd Cronfa yr Ardoll Agregau (ALF) wedi chwarae rhan allweddol wrth sicrhau manteision amgylcheddol ac economaidd cadarnhaol i gymunedau ger safleoedd echdynnu mwynau, drwy fuddsoddi mewn prosiectau a helpu i feithrin perthnasoedd cryf a pharhaol rhwng y diwydiant a phobl leol.

Roedd cau'r gronfa yn 2017 yn ergyd i'r diwydiant ac i gymunedau fel ei gilydd, ac mae MPA Cymru yn cefnogi ei hadferiad yn gryf. Nid oes unrhyw reswm pam na ellid ei hailsefydlu er bod yr Ardoll Agregau yn parhau i fod yn dreth nas datganolwyd, fel y dangosir gan y ffaith bod y gronfa wreiddiol wedi parhau am chwe blynedd ar ôl diddymu'r gronfa gyfatebol yn Lloegr.

Nid yw MPA Cymru ychwaith yn gwrthwynebu datganoli'r Ardoll Agregau i Gymru mewn egwyddor. Fodd bynnag, petai hynny'n digwydd, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i ddysgu gwersi o brofiad Llywodraeth yr Alban gyda datganoli Treth Agregau'r Alban yn ddiweddar. Cyflwynwyd hyn ar ôl mewnbyn sylweddol gan y diwydiant, a chafodd ei chyfradd gychwynnol a'i strwythur eu gosod er mwyn achosi cyn lleied o aflonyddwch â phosibl i'r sector ac i fasnach drawsffiniol. Gellid defnyddio referniw o drethiant agregau hefyd i gefnogi'r system cynllunio mwynau yng Nghymru.

Argymhellion:

- Os caiff yr Ardoll Agregau ei datganoli i Gymru, dylid ei chynllunio mewn ymgynghoriad â'r diwydiant, ac ni ddylid gwyro oddi wrth Ardoll Agregau'r DU yn ddiangen, na'i chodi i gyfradd uwch na hi.
- Adfer Cronfa yr Ardoll Agregau.
- Peidio â chynyddu'r Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, na'r ardrethi annomestig.

4. Y defnydd o dir, natur ac adnoddau

Mae gan aelodau MPA Cymru hanes balch, dros ddegawdau lawer, o wella bioamrywiaeth yng Nghymru drwy adfer hen safleoedd chwareli i fyd natur.

Oherwydd natur hirdymor, ond dros dro, echdynnu mwynau yn y pen draw, mae cyfraniad y sector at fioamrywiaeth yn unigryw, ac mae'n cynnwys rhai o'r prosiectau adfer mwyaf uchelgeisiol a'r prosiectau creu cynefinoedd arbenigol mwyaf arloesol.

Dylai unrhyw ymdrech i'w gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau ddarparu budd net i fioamrywiaeth adlewyrchu'r cyfraniad unigryw hwn drwy baramedrau penodol i'r diwydiant, er mwyn osgoi annog busnesau yn anfwriadol i beidio â bwrw ymlaen â'r prosiectau mwyaf uchelgeisiol ac arloesol sydd, yn y pen draw, yn sicrhau'r budd net mwyaf.

Yn y cyfamser, mae ystyriaeth wael wedi bod o ran nod datganedig Llywodraeth Cymru o gynyddu'r defnydd o bren mewn adeiladu ac yn seiliedig ar ragdybiaethau hen ffasiwn, yn enwedig o gofio bod dros 80% o'r pren a ddefnyddir mewn adeiladu yn y DU yn cael ei fewnforio.

Mae ymchwil ddiweddar gan y Future Homes Hub wedi canfod mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd yng ngharbon oes gyfan adeiladau ffrâm bren o'i gymharu ag adeiladau maen, a dylai polisi Llywodraeth Cymru adlewyrchu hyn drwy fabwysiadu dull 'niwtral o ran deunyddiau' wrth hyrwyddo pob deunydd adeiladu carbon isel, gan gynnwys sment a concrit carbon isel.

Mae cartrefi concrit a maen yn cynnig gwydnwch rhagorol rhag tân, llifogydd a dŵr yn dianc. O'u cyfuno â mäs thermol sy'n helpu i oeri adeiladau mewn tywydd poeth, gall concrit a maen ddarparu gwydnwch rhagorol rhag hinsawdd sy'n newid.

Argymhellion:

- Disodli'r polisi o hyrwyddo pren yn benodol mewn adeiladu gyda dull niwtral o ran deunyddiau sy'n cefnogi pob deunydd adeiladu carbon isel yn gyfartal.
- Sicrhau fod unrhyw gynigion posibl ar gyfer budd net bioamrywiaeth gorfodol yn benodol i'r diwydiant.
- Sicrhau fod cynllunio defnydd tir yn diogelu gweithrediadau mwynol a chyfleusterau trafniadaeth cysylltiedig.
- Annog Cyfoeth Naturiol Cymru i fabwysiadu dull mwy pragmatig tuag at y sector cynhyrchion mwynol a'r materion y mae'n eu hwynebu, gan gydnabod ei bwysigrwydd i economi, amgylchedd a chymdeithas Cymru.

Y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau yw'r gymdeithas fasnach ar gyfer y diwydiannau Agregau, Asfalt, Sment, Concrit, Cerrig Pensaernïol, Tywod Diwydiannol, Calch a Morter.

I gael rhagor o wybodaeth am MPA edrychwch ar www.mineralproducts.org

© Cymdeithas Cynhyrchion Mwynau 2026

MPA Wales/Cymru

Buttermilk Hall, Fron
Garthmyl, Powys SY15 6SA

Ffôn +44 (0)1686 640630
Ffôn symudol 07967 655379

www.mineralproducts.org/wales

